



Y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn 2022

Gweledigaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw gwneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg. Ein nod yw diogelu a gwasanaethu pob un o'r 10 Awdurdod Unedol sy'n rhan o'n hardal amrywiol, gan weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen eraill. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn gwasanaethu ardaloedd Awdurdodau Unedol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.

Mae gan Wasanaeth Tân De Cymru ddyletswydd statudol i ddarparu darpariaeth Tân ac Achub mewn argyfwng i gymunedau De Cymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cyfnodau lle gellir gweld gostyngiad sylweddol o ran nifer y personél yn y system Ddyletswydd Gyflawn a'r system Ddyletswydd Ar Alwad o ganlyniad i bandemig ffliw, Gweithredu Diwydiannol neu achosion tebyg eraill. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen hwn, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu cynllun Rheoli Parhad Busnes gan esgor ar greu Llu Cynorthwyol Wrth Gefn i ddarparu'r hydwythedd pan fydd yr angen yn codi.

Mae'n bwysig i bwysleisio bod y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn wedi cael ei greu er mwyn darparu hydwythedd mewn amgylchiadau eithriadol megis pandemig ffliw, gweithredu diwydiannol neu achosion tebyg a fyddai'n lleihau gallu'r Gwasanaeth o ran ymladd tanau ac ymateb i argyfwng.

Bydd y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yn cael hyfforddiant mewn sgiliau craidd a gefnogir gan raglen o hyfforddiant ail-gynefino chwarterol sy'n gymesur â natur a graddau'r argyfyngau a digwyddiadau y gellid disgwyl i bersonél y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn. Byddai lefel yr hyfforddiant a ddarperir yn cynnwys sgiliau ymladd tân craidd gan gynnwys hyfforddiant Offer Anadlu a thechnegau gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Byddai lefel yr hyfforddiant cychwynnol a pharhaus a ddarparwyd ar eich cyfer yn sicrhau y byddwch chi'n aelod gwerthfawr ac effeithiol o'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn.

Mae'r math o ddigwyddiadau y gallai'r Llu Cynorthwyol Wrth Gefn eu mynychu'n cynnwys; tanau mewn adeiladau domestig neu fasnachol, tanau mewn ceir neu gerbydau eraill, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a digwyddiadau yn ymwneud â rheilffyrdd. Nid yw'r rhestr o ddigwyddiadau yn hollgynhwysol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn recriwtio personél ychwanegol i ychwanegu at y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn sy wedi bodoli ers wyth mlynedd.

Tâl

£13.59 yr awr yn ystod y cyfnod hyfforddiant cychwynnol

£13.59 yr awr ar gyfer hyfforddiant ad hoc neu ddyletswyddau ychwanegol

£261.37 ar gyfer mynychu diwrnod o hyfforddiant ail-gynefino chwarterol (4 dydd bob chwarter)

£261.37 o daliad ar gadw bob chwarter yn amodol ar fynychu'r diwrnod hyfforddiant ail-ymgynefino chwarterol.



Taliadau ychwanegol ar gyfer lleoli gweithredol.

Sylwch: mae cyfradd y tâl a thaliadau Cadw yn destun cynnydd blynyddol yn unol â chodiadau cyflog SWFRS.

Cytundeb:

Byddwch chi'n cael eich cytundebu i ymrwymo i wythnos o hyfforddiant Sgiliau Craidd ac wythnos o hyfforddiant Gwrthdrawiad Traffig ar y Ffyrdd a phedwar diwrnod o hyfforddiant ail-gynefino (yn seiliedig ar 1 diwrnod bob chwarter) gydol y flwyddyn. Bydd dyletswyddau ychwanegol yn dibynnu ar ofynion y Gwasanaeth.

Lleoliad:

Byddwch yn gweithredu o fewn cwmnïad ardal ddaearyddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y Llu Cynorthwyol Wrth Gefn yng Ngorsaf Dân Abercarn. Ni fydd byw y tu allan i ardal y Gwasanaeth yn eich rhwystro rhag ymgeisio.

Gofynion lleiafswmiol:

- Mae'n ofynnol i chi fod yn 18 oed erbyn i chi gyflwyno eich ffurflen Gais.
- Rhaid bod chi'n gymwys i fyw a gweithio yn y DU a bod gennych brawf o'r hawl i weithio.
- Mae'n ofynnol i chi fodloni:
- Prawf Corfforol ac Ymarferol
- Cyfweliad
- Archwiliad meddygol fydd yn cynnwys prawf cyffuriau ac alcohol.
- Gwiriad gwahardd a datgelu sylfaenol.

Trwydded LGV Dosbarth C (Cerbyd Nwyddau Mawr):

Mae croeso hefyd i geisiadau gan y rhai sydd â thrwydded LGV Dosbarth C (Cerbyd Nwyddau Mawr) cyfredol a gallant ddangos profiad o yrru'r Dosbarth hwn o gerbyd. Gellid cynnig cwrs Gyrru Ymateb Brys i unigolion sydd wedyn yn pasio asesiad sgiliau gyrru cychwynnol SWFRS LGV mewnol. Bydd cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus yn arwain at daliad pellach o £ 250 y flwyddyn yn seiliedig ar 2 sesiwn hyfforddi ailgyfarwyddo hanner diwrnod.

Anogir Ffurflenni Cais i gael eu llenwi ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan: <https://www.southwales-fire.gov.uk/working-with-us/latest-vacancies/>. Os oes angen fersiwn bapur e-bostiwrch: personel@southwales-fire.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 15 Awst am hanner dydd

Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch mae croeso i chi gysylltu â Paul Conway y Rheolwr cynorthwyol drwy law e-bost: p1-conway@southwales-fire.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.



Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

Amserlen - Llu Cynorthwyol Wrth Gefn 2021

Wrth wneud cais am y swydd fel Cronfa Ategol, nodwch y dyddiadau canlynol:

Y broses recriwtio	Dyddiad cau ar gyfer ei dderbyn o gais	Dydd Gwener 12 Awst 2022
	Corfforol / Ymarferol a Cyfweliad	Dydd Mawrth 23 Awst – Tân Abercarn Gorsaf Dydd Mercher 24ain Awst - Tân Abercarn Gorsaf Dydd Iau 25 Awst – Tân Abercarn Gorsaf (mae angen presenoldeb am 1 diwrnod yn unig)
	Dyddiadau meddygol (meddygol llawn a prawf ffitrwydd)	Medi 2022
Wythnosau hyfforddi cychwynnol	Sgiliau Craidd	Dyddiadau i'w cadarnhau Yn debygol o fod yn Hydref / Tachwedd 2022
	Sgiliau Technegol	w / c 7fed Tachwedd 2022 (5 diwrnod)
	Offer Anadlu	w/c 23 Ionawr 2023 (5 diwrnod)

Sylwch: gallai lleoliadau a dyddiadau newid oherwydd argaeledd adnoddau.

Cysylltwch â'r tîm Recriwtio ac Adnoddau os oes unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r ffurflen gais ar 01443 232200 neu drwy personnel@southwales-fire.gov.uk.